

YR YMGRCH

R. IESTYN HUGHES yn olrhain hanes ffilm arbennig

Fe glywir sôn yn achlysurol y dyddiau hyn fod y gelyn hwnnw, darfodedigaeth, neu'r TB unwaith yn rhagor yn ailafael mewn rhai ardaloedd difreintiedig, ac ymysg pobl yr ymylon. Bu'r clefyd yn elyn pennaf i genedlaethau, ac mae'r sôn yn ddiagon i godi braw ar lawer ohonom o hyd.

Hawdd yw i ni o'n cartrefi bach clyd, gyda mur gwarchodol y gwasanaeth iechyd (bron) yn gyflawn o'n cwmpas, fetu dirmad yr amgylchiadau a fu. O droad y ganrif hyd yr Ail Ryfel Byd, pan oedd TB yn ei anterth, doedd dim doctor ar gael ar ben ffôn i gynnig gwasanaeth rhad ac am ddim, dim cyffwr gwrthiol i leddfu'r dioddefaint, a phe bai hyn ddim yn ddigon, roedd hefyd elfen gwbl ddi-alw-amdani o stigma cymdeithasol yn perthyn i'r claf.

Serch nad oedd gwladwriaeth les yn bodoli, doedd hynny ddim yn golygu nad oedd y wladwriaeth ei hun, nac unigolion a oedd yn perthyn i'r 'sefydliad', yn poeni am effaith y clefyd ar y boblogaeth. Mae hanes clodwiw i'r 'reformers' cymdeithasol yn ystod oes Fictoria, a doedd y gydwylbod gymdeithasol ynglŷn â lles y werin ddim wedi darfod gyda diflaniad y ganrif.

Yn yr ysbryd daionus hwn, yn Amwythig ym Medi 1910 fe gynhaliwyd cynghres genedlaethol er mwyn cychwyn ymgyrch i ddileu'r TB, a hynny fel cofeb i'r brenin Edward VII. Erbyn diwedd Mai 1912 roedd y *King Edward VII Welsh National Memorial Association* wedi'i ymgorffori, gyda'r nod o ddileu'r clefyd yn llwyr o'r wlad.

Dan nawdd sylfaenwyr dylanwadol, a chyda swyddogion hirben ac ymroddedig, fe ddatblygodd y Gymdeithas yn rym pwerus yn y frwydr yr erbyn y clefyd. Adeiladwyd nifer o Sanatoria ganddynt, lle roedd cleifion yn gallu mynd, yn rhad ac am ddim, un ai i geisio gwellhad, neu i gael darfod eu dyddiau mewn amgylchiadau o 'ofal tyner'.

Mae adroddiad blynyddol y Gymdeithas am 1935, sydd ymhlith papurau'r corff yn Adran Llawysgrifau a Chofysgrifau'r Llyfrgell Genedlaethol, yn dadlennu llawer am eu gwaith ac am yr amgylchiadau cymdeithasol ac ieithyddol oedd yn bodoli ar y pryd. Roedd ganddynt ddau ymwelydd iechyd Cymraeg eu hiaith yn gweithio yn Sir Fôn a Sir Gaernarfon ac yn ardaloedd Sir Faesyfed a Meirionnydd. Rhan o waith yr ymwelwyr oedd darbwyllo pobl, yn enwedig y mamau, i gydnabod problem TB yn eu teuluoedd, ac i gynnig cymorth iddynt. Roedd hi'n ymddangos

bod rhaid cael ymwelwyr sensitif i allu agor llen y stigma cymdeithasol er mwyn cyrraedd at y dioddefwyr a'u teuluoedd a chynnig goleuni iddynt; ac roedd hi'n hanfodol cael agosatrwydd Cymry Cymraeg i allu gwneud hynny yn llwyddiannus yn yr ardaloedd hyn. Mae'r adroddiad yn brolio fod un ymwelydd wedi galw ar 2,610 o deuluoedd yn ystod y flwyddyn, a hynny ym Mhen Llŷn yn unig.

FFILMIAU IECHYD

Ond doedd anfon ymwelwyr o dŷ i dŷ ddim yn ddigonol i gyrraedd trwch y boblogaeth, nac yn ffordd effeithiol o ddileu'r ofn oedd yn rhwystro dioddefwyr rhag camu ymlaen am driniaeth. Roedd y Gymdeithas yn ddigon parod i ddefnyddio dulliau modern, torfol, er mwyn cyrraedd y nod, neu i greu argraff drawiadol. Roedd y parodrwydd hyn yn mynd mor bell â defnyddio'r ffilm fel cyfrwng deniadol i gyrraedd eu cynulleidfa. Mae'r adroddiad, wrth sôn am Sanatorium De Cymru, yn dweud: '*Mae'r offer Cinematograph yn y sefydliad hwn wedi mynd yn hen ffasiwn iawn. Mae offer sain ('talkie') heddiw yn rhan hanfodol o offer sefydliad modern. Mae Pwyllgor y Tŷ yn gobeithio y bydd hi'n bosib darparu hyn cyn y gaef nesaf.*'

Mae'n ymddangos felly fod taflunio ffilmiau yn y Sanatoria yn beth gweddol gyffredin. 'Wn i ddim ai cynnig adloniant i'r cleifion ynteu eu haddysgu oedd y bwriad.

Y peth hynotaf ynghylch yr adroddiad ar gyfer 1935 yw fod yma sôn, mewn termau cymharol fyrlymus, am y gwaith a gyflawnwyd ar greu ffilm i'r Gymdeithas, ffilm oedd nid yn unig yn dangos y gwaith oedd yn mynd yn ei flaen yn y Sanatoria yng Nghymru, a'r labordai, ond a oedd hefyd yn ceisio codi'r llen a denu'r dioddefwyr o'u cuddfannau i'w mynwes lesol. A'r peth hynotaf oll — fod y ffilm ar gael nid yn unig yn y Saesneg, ond hefyd yn y Gymraeg — y '*talkie*' cyntaf yn Gymraeg, yn ôl broliant y ffilm.

Teitl y ffilm oedd *Yr Ymgyrch* ('The Crusade' yn Saesneg). Dyma sydd gan yr adroddiad i'w ddweud:

Mae'r Gymdeithas yn ymfalchïo eu bod wedi cynhyrchu beth sydd, yn fwy na thebyg, y ffilm gyntaf i fod â sylwebaeth yn Gymraeg.

Gwireddwyd gan y Pwyllgor Cyffredinol y prosiect a drafodwyd mor hir, o gynhyrchu ffilm addysgiadol yn delio a thrin y TB yng Nghymru a Sir Fynwy. Dan y teitl 'Crusade', cynhyrchwyd i'r Gymdeithas gan y *British Gaumont Corporation*, ac y mae'n cynnwys sylwebaeth Saesneg a

Chymraeg, yr olaf yn cael ei adrodd gan ein llywydd, yr Arglwydd Davies, a'r cyfarwyddwr addysg, Dr R. Owen Morris.

Mae'r stori yn ceisio goleuo'r cyhoedd am natur y driniaeth a roddir i'r rhai sy'n dioddef o TB a'u hannog i gael eu harchwilio a derbyn triniaeth. Gan ddangos yr archwiliadau cyntaf a phelydr X yn y clinig, a phroffion ar boer ac eraill yn y labordy, mae'r ffilm yn mynd ymlaen i ddangos y gwahanol gamau yn y driniaeth yn yr ystyby a'r sanatorium, gan gloi gyda'r gwaith 'wedi'i raddio' fel y daw'r cyfnod ymadfer yn nes.

Mae Sanatorium De Cymru ym Mhontwal, Talgarth, gyda'r Mynydd Du yn gefndir hyfryd, ag ystybai Chefn Mabli, Glan Ely, a gerddi ystyby Adelina Patti yn cynnig 'shots' prydferth. Nodwedd drawiadol a deniadol yw'r lluniau o blant llon yn derbyn triniaeth yn Ystyby Kensington a Bae St. Brides, Sir Benfro.

Yn y rhan olaf, sydd yn Gymraeg a'r Saesneg, mae'r Arglwydd Davies yn cymell yr angen i'r rhai sy'n amau eu bod yn dioddef i dderbyn triniaeth buan, ac y mae'n pwysleisio fod y driniaeth a roddir gan y Gymdeithas yn gyfan gwbl rhad ac am ddim.

Dangoswyd y ffilm i aelodau o'r Cyngor yn ystod eu cyfarfod ym mis Ionawr, ac y mae yn awr yn cael ei dangos ar hyd a lled y Dywysogaeth.

Gwnaed trefniadau hefyd gyda Mr Ifan ab Owen Edwards, o Urdd Gobaith Cymru, (a fydd yn teithio pentrefi Cymru yn ystod y gaef nesa gyda dau beiriant 'talkie', yn rhoi rhyw 300 o ddangosiadau), i gynnwys y ffilm yn ei raglen.

ARLOESWYR

Mae'r cyfeiriad at Ifan ab Owen Edwards yn hynod ddiddorol ar sawl cyfrif. Roedd Syr Ifan wedi bod yn gweithio'n ddyfal ar greu ei ffilm sain ei hun yn ystod yr un cyfnod yn union. Gyda John Ellis Williams a'i gwmmi o actorion, fe ffilmiodd *Y Chwarelwyr*, drama am fywyd chwarelwyr wedi'i saethu yn ardal Blaenau Ffestiniog. Y ffilm hon sy'n cael ei chydabod fel y '*talkie*' Cymraeg cyntaf. Yn wir, aethpwyd â rhai o actorion y ffilm i Lundain i recordio eu lleisiau ar recordiau gramoffon 'Synchrophone' trwsgl, a fyddai'n ddiweddarach yn cael eu chwarae yr un pryd â'r ffilm ei hun, er mwyn ceisio creu 'lip sync' gyda'r lluniau. Roedd y dull yma o roi sain 'ar' ffilm hyd yn oed yn 1935 yn hen ffasiwn ac aneffeithiol. Y dull a oedd yn cael ei arfer fwyaf ar y pryd oedd creu strïbed o ffilm ar wahân i gario'r sain. Os oedd darn o'r ffilm yn braenu, roedd yn bosib felly dorri allan ddarn o'r strïbed sain, fel bod y sain bob amser yn cyd-redeg â'r ffilm. Nid felly'r record gramoffon wrth gwrs, oedd yn chwarae yn ei hamser ei hun, waeth beth oedd y llun!

Beth a ddaeth o *Y Chwarelwyr?* I aralleirio Syr T. H. Parry-Williams, mae 'darnau ohoni ar wasgar hyd y fro' — darn gyda ffilmiau eraill gan Syr Ifan yng nghasgliad ffilmiau y Llyfrgell Genedlaethol, darn yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan ac un arall gan y BBC.

Fe wireddwyd taith Syr Ifan yn ystod y gaef. Creodd noson o adloniant ar ffilm oedd yn parhau am ddwyawr, gan gynnwys ymhlith eraill *Yr Ymgyrch*, *Felix y Gath* ac wrth gwrs y 'grand finale' — *Y Chwarelwyr*. Ond beth a ddaeth o *Yr Ymgyrch* wedi hynny, ffilm a oedd yn cystadlu gyda *Y Chwarelwyr* am y fraint o gael ei galw 'y *talkie* Cymraeg cyntaf'.

Deuthom ar draws poster diddorol yn y Llyfrgell Genedlaethol, sy'n hysbysebu dangosiad o *Yr Ymgyrch* Gymraeg yn y *Coliseum* yn Aberystwyth, a hynny ym mis Mehefin 1935, pedwar mis cyn rhyddhau ffilm sain Syr Ifan. Ond siom, er bod papurau'r Gymdeithas hefyd yn y Llyfrgell, ni roddwyd y ffilm i'w chadw gyda'r rheini. Daeth ymholiadau gyda'r cynhyrchwyr, Gaumont, â'r newydd digalon nad oedd ganddynt unrhyw gyfeiriad at y ffilm o gwbl — Saesneg na Chymraeg, a phe bai'r negydd wedi bod ganddynt, y byddai'n siŵr o fod wedi cael ei ddinistrio erbyn hyn! Trwy lwc roedd gan yr Archif Ffilm Genedlaethol yn Llundain gyfeiriad at y ffilm Saesneg, ond wedi chwilio ymhellach, dim ond y strïbyn sain oedd ar gael. Copiwyd y sain, ac y mae ar gael i'w glywed yn ystafell wrando gysurus Casgliad Sain a Delweddau Symudol y Llyfrgell Genedlaethol. Nid Arglwydd Davies Llandinam sy'n traethu trwy gydol y ffilm, ond y mae'n siarad (yn glogyrnaidd iawn, mae'n rhaid cyfaddef) ar y diwedd, ond nid yn Gymraeg. Mae'n amlwg o wrando ar y sain, nad oedd ymgais i recordio'r seiniau 'go iawn' a fyddai'n cyd-fynd â'r delweddau. Sylwebaeth a cherddoriaeth yn unig a geir yma — does neb yn cael eu cyfweld, hyd y gellir barnu, ac nid oes seiniau cefndirol naturiol. Mae'n bosib, ond yn annehbygol, fod y rhan olaf, sef perorasiwn yr Arglwydd Davies, yn ei ddangos yn traethu, ond y mae'n amhosib bod yn siŵr o hynny. A ellir ei hystyried felly yn '*talkie*' go iawn? Os nad yn '*talkie*', roedd hi'n siŵr o fod y ffilm sain gyntaf yn y Gymraeg.

DIRGELWCH

Ble felly mae'r ffilm (Cymraeg neu Saesneg) ei hun? Ydi hi wedi goroesi yn rhywle? Pam nad oedd strïbyn Cymraeg ar gael o Lundain — a oedd y fersiwn hon wedi'i chynhyrchu ar record gramoffon yn hytrach na ffilm,